OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 1705 (Cy.167)

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Rheoliadau Byrddau Lleol ar gyfer Diogelu Plant (Cymru) 2006

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *27 Mehefin 2006* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Hydref 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 31(2), (4) a (5), 32(2) a (3), 34(1) a 66(1) o Ddeddf Plant 2004(**1**), a chyda chydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol o ran rheoliad 5(2)(a) i (c), (dd) ac (e)(**2**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Byrddau Lleol ar gyfer Diogelu Plant (Cymru) 2006.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Hydref 2006.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "aelod" ("*member*") yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 6(1);

mae i "adolygiad achos difrifol" ("*serious case review*") yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 4;

mae i "adroddiad trosolwg" ("*overview report*") yr ystyr a roddir iddo gan reoliad 4(4)(b);

ystyr "ardal" ("*area*") yw'r ardal y sefydlwyd Bwrdd ar ei chyfer;

ystyr "awdurdod gwasanaethau plant" ("*children's services authority*"), o ran Bwrdd, yw'r awdurdod neu'r awdurdodau a sefydlodd y Bwrdd;

ystyr "Bwrdd" ("*Board*") yw naill ai Bwrdd Lleol ar gyfer Diogelu Plant a sefydlwyd ar gyfer ardal awdurdod gwasanaethau plant yng Nghymru neu Fwrdd Lleol ar gyfer Diogelu Plant a sefydlwyd ar gyfer ardaloedd dau neu fwy o awdurdodau gwasanaethau plant yng Nghymru(**3**)

(**1**) 2004 p. 31.

(**2**) *Gweler* adran 31(4) o Ddeddf 2004 am y gofyniad i gael cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol.

(**3**) Mae adran 31(1) o Ddeddf 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod gwasanaethau plant yng Nghymru sefydlu Bwrdd Lleol ar gyfer Diogelu Plant ar gyfer eu hardal. Mae adran 31(9) yn caniatáu i ddau awdurdod neu fwy gyflawni eu dyletswyddau yn eu trefn o dan adran 31(1) drwy sefydlu Bwrdd ar gyfer eu hardal gyfun.

ystyr "Cadeirydd" ("*Chair*"), o ran Bwrdd, yw person sy'n dal swydd gyfredol i weithredu felly o dan reoliad 6;

ystyr "corff cynrychioliadol" ("*representative body*") yw corff sydd wedi penodi person i weithredu fel ei gynrychiolydd ar y Bwrdd;

mae i "cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol" yr ystyr a roddir i "director of social services" yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970(**4**);

ystyr "Deddf 2004" ("*2004 Act*") yw Deddf Plant 2004;

mae i "niwed" yr ystyr a roddir i "harm" yn adran 31(9) o Ddeddf Plant 1989(**5**);

ystyr "nyrs gofrestredig" ("*registered nurse*") yw nyrs neu fydwraig sydd wedi'i chofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth;

ystyr "prif swyddfa" ("*principal office*"), o ran Bwrdd, yw mangre a ddynodir felly gan y Bwrdd;

ystyr "prif swyddog addysg" ("*chief education officer*") yw swyddog a benodir o dan adran 532 o Ddeddf Addysg 1996(**6**);

(2) Yn y Rheoliadau hyn mae cyfeiriad—

(a) at reoliad â Rhif yn gyfeiriad at y rheoliad sy'n dwyn y Rhif hwnnw yn y Rheoliadau hyn;

(b) mewn rheoliad at baragraff â Rhif yn gyfeiriad at y paragraff yn y rheoliad hwnnw sy'n dwyn y Rhif hwnnw;

(c) mewn paragraff at is-baragraff â Rhif yn gyfeiriad at yr is-baragraff sy'n dwyn y Rhif hwnnw yn y paragraff hwnnw.

### Swyddogaethau Bwrdd o ran ei amcan

**3.**—(1) Mae Bwrdd i gael y swyddogaethau canlynol o ran ei amcan o dan adran 32 o Ddeddf 2004(**7**)—

(a) cymryd camau sydd â'r nod o feithrin perthynas o ymddiriedaeth a dealltwriaeth gilyddol ymhlith y personau neu'r cyrff a gynrychiolir ar y Bwrdd o ran diogelu a hybu lles plant o fewn ardal y Bwrdd;

(b) cymryd camau sydd â'r nod o godi ymwybyddiaeth ledled ardal y Bwrdd o'r angen i ddiogelu a hybu lles plant a darparu gwybodaeth am y modd y gellir cyflawni hyn;

(c) datblygu polisïau a gweithdrefnau sydd â'r diben o gydlynu yr hyn a wneir gan bob corff cynrychioliadol at ddibenion diogelu a hybu lles plant o fewn ardal y Bwrdd, gan gynnwys polisïau a gweithdrefnau o ran—

(i) rhannu gwybodaeth;

(ii) camau i'w cymryd pan fo pryderon am ddiogelwch neu les plentyn, gan gynnwys nodi terfynau i ymyriad;

(iii) recriwtio a goruchwylio personau sy'n gweithio gyda phlant neu sy'n cael ymwneud â phlant yn rheolaidd;

(iv) diogelwch a lles plant a faethir yn breifat.

(ch) adolygu effeithiolrwydd y mesurau a gymerwyd gan bob person neu gorff a gynrychiolir ar y Bwrdd i gydlynu yr hyn a wnânt at ddibenion diogelu a hybu lles plant o fewn ardal

(**4**) 1970 p. 42.
(**5**) 1996 p. 56.
(**6**) 1989 p.41.
(**7**) O dan adran 32(1) o Ddeddf 2004, amcan y Bwrdd yw (a) cydlynu yr hyn a wneir gan bob person neu gorff a gynrychiolir ar y Bwrdd at ddibenion diogelu a hybu lles plant yn ardal yr awdurdod a'i sefydlodd; a (b) sicrhau effeithiolrwydd yr hyn a wneir gan bob un o'r personau neu'r cyrff hynny at y dibenion hynny.

y Bwrdd a gwneud pa argymhellion bynnag y gwêl yn dda ar gyfer y personau neu'r cyrff hynny yng ngoleuni'r cyfryw adolygiad;

(d) gwneud "adolygiadau achos difrifol" yn unol â rheoliad 4;

(dd) monitro i ba raddau y mae unrhyw argymhellion a wnaed mewn adolygiad o dan baragraff (ch) neu mewn adolygiad achos difrifol yn cael eu bodloni neu wedi cael eu bodloni;

(e) datblygu meini prawf ar gyfer mesur perfformiad awdurdod gwasanaethau plant yn erbyn y cynllun a luniwyd o dan adran 26 o Ddeddf 2004 (cynlluniau plant a phobl ifanc)(**8**), i'r graddau y mae'r cynllun yn ymwneud â diogelu a hybu lles plant yn ardal un o'r awdurdodau;

(f) lledaenu gwybodaeth am yr arferion gorau wrth ddiogelu a hybu lles plant ymhlith y cyrff cynrychioliadol a'r personau eraill hynny y mae'r Bwrdd yn barnu eu bod yn briodol;

(ff) gwneud ymchwil i ddiogelu a hybu lles plant;

(g) adolygu anghenion hyfforddi'r sawl sy'n gweithio yn ardal y Bwrdd gyda'r bwriad o ganfod gweithgareddau hyfforddi a chynorthwyo i ddiogelu a hybu lles plant yn ardal y Bwrdd;

(ng) darparu hyfforddiant er mwyn cynorthwyo i ddiogelu a hybu lles plant yn ardal y Bwrdd;

(h) cydweithredu â Byrddau eraill (p'un ai yng Nghymru neu yn Lloegr) ac unrhyw gyrff tebyg o'r fath yn yr Alban a Gogledd Iwerddon os bydd y Bwrdd yn ystyried y byddai hynny o fudd cilyddol; ac

(i) ceisio cyngor neu wybodaeth os yw'r Bwrdd o'r farn bod hynny'n ddymunol at ddibenion unrhyw un o'r swyddogaethau uchod.

## Adolygiadau achos difrifol

**4.**—(1) Rhaid i Fwrdd gynnal adolygiad ("adolygiad achos difrifol") yn unol â'r rheoliad hwn yn unrhyw un o'r achosion canlynol os bydd yn wybyddus bod plentyn, o fewn ardal y Bwrdd, yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, neu os amheuir hynny, ac—

(a) bod plentyn wedi marw, neu

(b) bod plentyn wedi dioddef anaf a allai roi ei fywyd mewn perygl, neu

(c) bod plentyn wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd neu i'w ddatblygiad.

(2) Caiff Bwrdd gynnal adolygiad achos difrifol yn unol â'r rheoliad hwn os bydd plentyn o fewn ardal y Bwrdd yn dioddef niwed nad yw'n dod o fewn paragraffau 1(a)(b) neu (c).

(3) Diben adolygiad achos difrifol yw canfod camau y gellir eu cymryd i rwystro marwolaeth neu niwed o'r tebyg rhag digwydd.

(4) Wrth gynnal adolygiad achos difrifol, rhaid i Fwrdd—

(a) gofyn i bob corff cynrychioliadol roi i'r Bwrdd adroddiad ysgrifenedig o'i ymwneud â'r plentyn sy'n destun yr adolygiad, onid yw'r Bwrdd o'r farn bod adroddiad o'r fath yn ddiangen yn yr amgylchiadau;

(b) ar ôl cael yr adroddiad y cyfeirir ato yn is-baragraff (a), llunio adroddiad ysgrifenedig (y cyfeirir ato yn y Rheoliadau hyn fel "adroddiad trosolwg")—

(i) sy'n canfod y camau sydd i'w cymryd i leihau'r risg o farwolaeth debyg neu niwed tebyg rhag digwydd; a

(ii) sy'n argymell erbyn pryd y dylid cyflawni'r camau hynny, ac yn enwi'r personau a ddylai eu cyflawni;

(**8**) Bydd Rheoliadau a wneir o dan adran 26(2) o Ddeddf 2004 yn gwneud darpariaeth benodol o ran cynlluniau plant a phobl ifanc.

(c) llunio crynodeb heb gynnwys enw neb o bob adroddiad trosolwg a sicrhau ei fod ar gael i'w archwilio ym mhrif swyddfa'r Bwrdd.

(5) Rhaid i'r Bwrdd roi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru—

(a) copi o bob adroddiad a ddarperir gan gorff cynrychioladol yn unol â pharagraff (4)(a) uchod;

(b) copi o bob crynodeb heb gynnwys enw neb; ac

(c) copi o bob adroddiad trosolwg.

(6) Rhaid i'r Bwrdd roi i bob cynrychiolydd—

(a) copi o bob crynodeb heb gynnwys enw neb; a

(b) oni bai bod y Bwrdd yn ei hystyried yn amhriodol, pob adroddiad trosolwg.

**Cynrychiolwyr**

**5.**—(1) Rhaid i Fwrdd gynnwys y canlynol yn gynrychiolwyr awdurdod gwasanaethau plant—

(a) cyfarwyddwr arweiniol yr awdurdod dros wasanaethau plant a phobl ifanc neu ryw swyddog arall sy'n uniongyrchol atebol i'r cyfarwyddwr ac sydd ar lefel ddigonol o gyfrifoldeb i gynrychioli'r awdurdod yn lle'r cyfarwyddwr;

(b) onid—

(i) cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol, cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod neu ryw swyddog arall sy'n uniongyrchol atebol i'r cyfarwyddwr hwnnw ac sydd ar lefel ddigonol o gyfrifoldeb i gynrychioli'r awdurdod yn lle'r cyfarwyddwr hwnnw;

(ii) y prif swyddog addysg, prif swyddog addysg yr awdurdod neu ryw swyddog arall sy'n uniongyrchol atebol i'r prif swyddog addysg ac sydd ar lefel ddigonol o gyfrifoldeb i gynrychioli'r awdurdod yn lle'r prif gyfarwyddwr addysg;

(iii) y swyddog a benodwyd gan yr awdurdod yn swyddog â chyfrifoldeb dros gyflawni swyddogaethau'r awdurdod o dan Ran VI neu VII o Ddeddf Tai 1996(**9**) neu ryw swyddog arall sy'n uniongyrchol atebol i'r person hwnnw ac sydd ar lefel ddigonol o gyfrifoldeb i gynrychioli'r awdurdod yn ei le;

yw cyfarwyddwr arweiniol yr awdurdod dros wasanaethau plant a phobl ifanc.

(2) Rhaid i Fwrdd gynnwys y canlynol fel cynrychiolwyr Partneriaid Bwrdd yr awdurdod gwasanaethau plant—

(a) o ran prif swyddog yr heddlu ar gyfer unrhyw ardal heddlu y mae unrhyw ran ohoni yn dod o fewn ardal y Bwrdd, swyddog—

(i) sydd o leiaf ar radd Arolygydd; a

(ii) y mae'r prif swyddog wedi gosod arno gyfrifoldeb dros ddiogelu a hybu lles plant;

(b) o ran bwrdd prawf lleol ar gyfer unrhyw ardal y mae unrhyw ran ohoni yn dod o fewn ardal y Bwrdd, y Prif Swyddog neu ryw swyddog arall sy'n uniongyrchol atebol i'r Prif Swyddog ac sydd ar lefel ddigonol o gyfrifoldeb i gynrychioli'r bwrdd prawf yn lle'r Prif Swyddog;

(c) o ran tîm troseddwyr ifanc ar gyfer ardal y mae unrhyw ran ohoni yn dod o fewn ardal y Bwrdd, rheolwr y tîm neu'r dirprwy reolwr;

(ch) o ran Bwrdd Iechyd Lleol ("BILl") ar gyfer ardal y mae unrhyw rhan ohoni yn dod o fewn ardal y Bwrdd—

(**9**) 1996 p. 52.

(i) swyddog arweiniol y BILl dros wasanaethau plant a phobl ifanc neu ryw swyddog arall sy'n uniongyrchol atebol i'r swyddog arweiniol ac sydd ar lefel ddigonol o gyfrifoldeb i gynrychioli'r BILl yn lle'r swyddog arweiniol;

(ii) ymarferydd meddygol cofrestredig y gosodwyd arno gyfrifoldebau penodedig o ran amddiffyn plant o fewn ardal y BILl; a

(iii) nyrs gofrestredig y gosodwyd arni gyfrifoldebau penodedig o ran amddiffyn plant o fewn ardal y BILl;

(d) o ran Ymddiriedolaeth GIG sy'n darparu gwasanaethau meddygol yn ardal yr awdurdod, heblaw Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, cyfarwyddwr gweithredol arweiniol yr Ymddiriedolaeth dros wasanaethau plant a phobl ifanc neu ryw swyddog arall sy'n uniongyrchol atebol iddo ac sydd ar lefel ddigonol o gyfrifoldeb i weithredu fel cynrychiolydd yr Ymddiriedolaeth yn lle'r cyfarwyddwr gweithredol arweiniol;

(dd) o ran llywodraethwr unrhyw ganolfan hyfforddi ddiogel o fewn ardal y Bwrdd (neu, yn achos canolfan hyfforddi ddiogel a gontractiwyd allan, ei chyfarwyddwr), dirprwy'r llywodraethwr (neu'r cyfarwyddwr) neu unigolyn o radd uwch; ac

(e) o ran llywodraethwr unrhyw garchar yn ardal y Bwrdd sydd fel arfer yn cadw plant yn gaeth (neu, yn achos carchar a gontractiwyd allan, ei gyfarwyddwr), dirprwy'r llywodraethwr (neu'r cyfarwyddwr) neu unigolyn o radd uwch.

(3) Drwy hyn rhagnodir y cynrychiolwyr ym mharagraff (2) at ddibenion adran 31(2) o Ddeddf 2004.

## Gweithdrefn etc. Bwrdd

**6.**—(1) Rhaid i Fwrdd gynnal rhestr o'r personau hynny sy'n dal swydd gyfredol i gynrychioli person neu gorff ar y Bwrdd (y cyfeirir atynt yn y Rheoliadau hyn fel "aelodau'r" Bwrdd ).

(2) Mae Bwrdd i wneud penderfyniadau drwy bleidlais mwyafrif ei aelodau onid yw'r penderfyniad yn un sydd i'w gymryd mewn cysylltiad â swyddogaeth y mae paragraff (4) yn gymwys iddi. Mae gan y Cadeirydd bleidlais fwrw.

(3) Caiff Bwrdd benderfynu y gellir cyflawni swyddogaeth benodol i unrhyw raddau penodedig (gan gynnwys y swyddogaeth yn ei chyfanrwydd), ac yn ddarostyngedig i unrhyw amodau penodedig, ar ei ran gan unrhyw un neu fwy o'i aelodau, onid yw'r swyddogaeth yn un y mae paragraff (4) yn gymwys iddi.

(4) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i swyddogaethau'r Bwrdd o ran datblygu gweithdrefnau i gydlynu gweithgareddau cyrff cynrychioliadol o dan reoliad 3(1)(c).

(5) Os bydd paragraff (4) yn gymwys, dim ond gyda phleidlais unfrydol yr aelodau y caniateir cymryd penderfyniad mewn cysylltiad â'r swyddogaeth.

(6) Rhaid i Fwrdd drwy benderfyniad mwyafrif benodi un o'i aelodau yn Gadeirydd iddo. Wrth wneud y penderfyniad hwnnw rhaid i'r aelodau roi sylw i'r angen i benodi Cadeirydd sydd ag arbenigedd a safle digonol i hawlio parch y cyrff cynrychioliadol.

(7) Daw penodiad y Cadeirydd i ben—

(a) os penodwyd ef am gyfnod penodol a bod y cyfnod yn dod i ben;

(b) os yw'n ymddiswyddo;

(c) os nad yw bellach yn aelod o'r Bwrdd;

(ch) os yw'r aelodau drwy benderfyniad y mwyafrif yn penderfynu hynny.

(8) Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau uchod, mae Bwrdd i benderfynu ei weithdrefnau ei hun.

**Swyddogaethau Awdurdodau Gwasanaethau Plant o ran eu Bwrdd etc.**

**7.**—(1) Rhaid i awdurdod gwasanaethau plant ddarparu aelod o'i staff i ddarparu gwasanaethau gweinyddol i'r Bwrdd.

(2) Mae cofnodion Bwrdd (ar ba ffurf bynnag y maent) i'w trin fel pe baent yn gofnodion yr awdurdod gwasanaethau plant.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**10**)

*D. Elis-Thomas*

27 Mehefin 2006

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**10**) 1998 p. 38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer swyddogaethau Byrddau Lleol Cymru ar gyfer Diogelu Plant o ran yr amcan a osodwyd ar eu cyfer gan adran 32 o Ddeddf Plant 2004, aelodaeth y Byrddau a'u gweithdrefnau.

Mae rheoliadau 3 a 4 yn ymdrin â swyddogaethau Byrddau. Mae rheoliad 3 yn rhagnodi swyddogaethau Bwrdd mewn cysylltiad â'i amcan. Mae rheoliad 4 yn gwneud darpariaeth ynghylch cynnal adolygiadau achos difrifol.

Mae rheoliad 5 yn rhagnodi aelodaeth Bwrdd. Mae rheoliad 6 yn ymdrin â gweithdrefnau Bwrdd ac mae rheoliad 7 yn rhoi swyddogaethau i awdurdodau gwasanaethau plant mewn cysylltiad â'u Bwrdd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 1 Hydref 2006.